# ELUSEN DYFFRYN PERIS SCE

England & Wales · Charity number 1189074

## Details

| | |
|---|---|
| **Status** | Registered |
| **Legal form** | CIO |
| **Registered** | 2020-04-15 |
| **Register** | View on the Charity Commission register |

## Contact

| | |
|---|---|
| **Address** | Y Gesail<br>4 Mor Awel<br>Penygroes<br>Caernarfon<br>Gwynedd<br>LL54 6RA |
| **Phone** | 07772844166 |
| **Email** | jogrisdale@btconnect.com |

## Activities

**Objects:** I HYRWYDDO ÆR FATH FWRIADAU ELUSENNOL (ELUSEN DAN GYFRAITH LLOEGR) ER LLES CYFFREDINOL DALGYLCH ELUSEN DYFFRYN PERIS YN SIR GWYNEDD A (NA DDARPERIR AR EI GYFER ALLAN O DRETHI CYHOEDDUS) FEL Y GWELIR YN DDA AC YN ADDAS GAN YR YMDDIRIEDOLWYR.TO PROMOTE SUCH CHARITABLE INTENTIONS (UNDER ENGLISH LAW CHARITY) FOR THE GENERAL BENEFIT OF THE CHARITY'S CATCHMENT PERIS VALLEY IN THE COUNTY OF GWYNEDD AND (NOT PROVIDED FOR OUT OF PUBLIC TAXES) AS SEEN WELL AND SUITABLE BY THE TRUSTEES.

**Activities:** Amcanion yr elusen, fel y nodir yn y Cyfansoddiad yw "I hyrwyddo'r fath fwriadau elusennol er lles cyffredinol dalgylch Elusen Dyffryn Peris yn Sir Gwynedd, na ddarperir ar ei gyfer allan o drethi cyhoeddus fel y gweler yn dda ac yn addas gan yr Ymddiriedolwyr.

## Classification

- **How:** Makes Grants To Individuals, Makes Grants To Organisations
- **What:** General Charitable Purposes
- **Who:** Children/young People, Elderly/old People, People With Disabilities, Other Charities Or Voluntary Bodies

Downloaded from opencharities.uk/ew/1189074

## Geography

- Gwynedd

## Finances

| Period end | Income | Expenditure | Assets | Employees |
|---|---|---|---|---|
| 2024-09-01 | £10,000 | £9,946 | - | - |
| 2023-09-01 | £10,000 | £9,754 | - | - |
| 2022-09-01 | £10,000 | £7,104 | - | - |
| 2021-09-01 | £20,000 | £12,895 | - | - |

## Trustees

| Name | Role | Appointed |
|---|---|---|
| **Dr Robin Parry** | Chair | 2020-04-15 |
| Erin Eifion Hughes | | 2020-04-15 |
| George Lewis Jones | | 2020-04-15 |
| Gwenan Pennant Jones | | 2024-10-01 |
| Katy Williams | | 2020-06-15 |
| Maldwyn Peris Roberts | | 2020-04-15 |
| Philip Wyn Roberts | | 2020-04-15 |
| RHYS AP GWILYM | | 2020-04-15 |
| Rhian Elin George | | 2020-04-15 |

Downloaded from opencharities.uk/ew/1189074

# Accounts

# ELUSEN DYFFRYN PERIS

## Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn 2023 - 2024

**Cyflwyniad**
Sefydlwyd Ynni Padarn Peris er mwyn creu cynllun heidro cymunedol i gynhyrchu trydan ‘gwyrdd’ gan ddefnyddio unrhyw elw at ddibenion cymdeithasol yn Nyffryn Peris.

Yna sefydlwyd Elusen Dyffryn Peris i ddosbarthu rhodd arianol a roddir yn flynyddol gan Ynni Padarn Peris er mwyn cyfrannu i les y cymunedau yn y dyffryn.
Un o amcanion sylfaenol Ynni Padarn Peris oedd sefydlu elusen a fyddai’n rhannu arian i brosiectau lleol. Nodir y mathau o weithgareddau a ystyrir yn briodol i dderbyn cefnogaeth fel - lleihau tlodi tanwydd, hybu ynni adnewyddadwy, trafnidiaeth gynaladwy, arbed ynni, prosiectau cadwraethol, lleihau gwastraff, gwirfoddoli, hybu ymarfer corff neu hybu dysgwyr Cymraeg.

Yn ystod 2019 aethpwyd ati i sefydlu Elusen Dyffryn Peris a fyddai’n gweithredu’n annibynnol i fenter Ynni Padarn Peris.

Cofrestrwyd Elusen Dyffryn Peris SCE gyda’r Comisiwn Elusennau ym mis Ebrill 2020, yna bu’n weithredol o Fehefin o’r un flwyddyn.

Mae Bwrdd yr Elusen yn cynnwys saith o unigolion lleol sy’n gyfarwydd â’r fro ac yn gydymdeimladol tuag at ofynion ei chymunedau ynghyd a dau aelod sy’n eistedd ar Fwrdd Ynni Padarn ac yn rhannu’r un dyheadau.

Yn anffodus yn ystod y cyfnod yma prin fu’r nifer o geisiadau er yr ymdrechion i ledaenu gwybodaeth am yr elusen. Felly bu’r flwyddyn hon yn bur dawel o ran y ceisiadau i’w trafod, felly diolch i’r holl ymddiriedolwyr sydd wedi ymuno’n gyson drwy Zoom i wireddu gwaith yr Elusen a bod yn ffyddiog y gwelir cynnydd yn y ceisiadau i’r dyfodol.

John Grisdale
Ysgrifennydd

**Rhestr o Ymddiriedolwyr y Bwrdd**

| | | |
|---|---|---|
| Dr Robin Parry | Cadeirydd | Etholwyd 2019 |
| John Grisdale | Ysgrifennydd | Etholwyd 2019 |
| Rhys ap Gwilym | Trysorydd | Etholwyd 2019 |
| Erin Eifion | | Etholwyd 2019 |
| Rhian George | | Etholwyd 2019 |
| Katy Williams | | Etholwyd 2019 |
| Philip Roberts | | Etholwyd 2019 |
| Maldwyn Peris | YPP | Etholwyd 2019 |
| George Jones | YPP | Etholwyd 2019 |

**Braslun o waith y Bwrdd yn ystod 2023 - 2024**

**Ionawr 2023**
Ni chynhaliwyd cyfarfod o'r Bwrdd gan nad oedd cais newydd wedi dod i law.

**Ebrill 2023**
Ni chynhaliwyd cyfarfod o'r Bwrdd gan nad oedd cais newydd wedi dod i law.

**11 Gorffennaf 2023**
Cyfarfod drwy Teams.
Derbyniwyd sawl ymholiad cychwynnol ond dim un cyflawn. Felly wrth ystyried ein criteria credir y dyliai ystyriaethau cymunedol fod llawn mor werthfawr ag ystyriaethau amgylcheddol ac arbed ynni. Bu ein cefnogaeth o gynllun pwyntiau gwefru Y Caban ac amgylchedd mynwent Llanrug yn brawf o hyn.
Cytunwyd i hyrwyddo hyn yn lleol ac yn Eco'r Wyddfa ond i ddefnyddio mwy ar weplyfr yr Elusen ac i safleoedd y pentrefi lleol ailadrodd unrhyw neges.

**10 Hydref 2024**
Cyfarfod yn Y Ganolfan Llanberis.
Ymddangosodd hanes diweddar yr Elusen yn rhifyn Awst o Eco;r Wyddfa.
Braf oedd nodi yn ystod y cyfnod diweddaraf i diwedd Medi daeth tri cais i law.
Cymeradwywyd **Cais 10** oddi wrth Y Sefydliad Coffa yn Llanrug er mwyn uwchraddio y system goleuo. Hefyd cefnogwyd Clwb Drama Ragarug a gyflwynodd **Cais 11.** Yn anffodus ni chefnogwyd **Cais 12** gan GwyrddNI.

**7 Chwefror 2024**
Cyfarfod drwy Teams.
Un cais ddaeth i law sef **Cais 13** oddi wrth Grŵp Datblygu Llanberis yn gofyn am gefnogaeth i brynu 'gasibo' er mwyn hyrwyddo eu gwaith a'u proffil amgylcheddol yn y pentref.

**7 Mai 2024**
Cyfarfod drwy Teams.
Gwnaethpwyd apêl lleol am gynrychiolwyr i weithredu fel Ymddiriedolwyr newydd ond prin fu'r ymateb yn anffodus. Bydd pwyso pellach cyn y pwyllgor ym mis Gorffennaf.
Trafodwyd ail gais ar ran Gwyrdd Ni sef **Cais 13** a phenderfynwyd holi barn aelodau o Bwyllgor Ynni Padarn Peris er mwyn cael barn mwy cynhwysfawr erbyn y pwyllgor nesaf.

**Rhestr y Ceisiadau**

| Cais Teitl | Penderfyniad | Swm |
|---|---|---|
| **Cais 10** Uwchraddio system goleuo yn Llanrug | Cymeradwyo | £5875.20 |
| **Cais 11** Clwb Dram Ragarug | Cymeradwyo | £3200.00 |
| **Cais 12** Cyfranu at waith GwyrddNi | Gwrthod | |
| **Cias 13** Gasibo i Grŵp Datblygu Llanberis | Cymeradwyo | £679.00 |

**Crynodeb o'r sefyllfa Arianol**

Derbyniwyd £10,000 o gyllid gan Ynni Padarn Peris rhwng mis Mehefin 2023 hyd at ddiwedd mis Mai 2024. Dosbarthwyd cyfanswm o £9,754.20 mewn grantiau, fel y manylir

isod. Gwariwyd £192.02 ar weinyddu gwefan yr Elusen dros y cyfnod. £15,975.56 oedd yn weddill yng nghyfrif banc yr Elusen ar ddiwedd mis Mai 2024.

Manylion trosglwyddiadau banc yr Elusen:

| Dyddiad | | Derbyniwyd | Talwyd | Mantol |
|---|---|---|---|---|
| 31/05/2023 | Mantol Agoriadol | | | £15921.78 |
| 25/10/2023 | Cais 10 | | £5,8750 | |
| 25/10/2023 | Cais 11 | | £3,200.00 | |
| 27/11/2023 | Ynni Padarn Peris | £10,000 | | |
| 27/02/2024 | Cais 13 | | £679.00 | |
| 30/03/2024 | Costau wefan | | £192.02 | |
| 31/05/2024 | Mantol terfynnol | | | £15,975.56 |

# Accounts

# ELUSEN DYFFRYN PERIS

## Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn 2023 - 2024

**Cyflwyniad**
Sefydlwyd Ynni Padarn Peris er mwyn creu cynllun heidro cymunedol i gynhyrchu trydan 'gwyrdd' gan ddefnyddio unrhyw elw at ddibenion cymdeithasol yn Nyffryn Peris.

Yna sefydlwyd Elusen Dyffryn Peris i ddosbarthu rhodd arianol a roddir yn flynyddol gan Ynni Padarn Peris er mwyn cyfrannu i les y cymunedau yn y dyffryn.
Un o amcanion sylfaenol Ynni Padarn Peris oedd sefydlu elusen a fyddai'n rhannu arian i brosiectau lleol. Nodir y mathau o weithgareddau a ystyrir yn briodol i dderbyn cefnogaeth fel - lleihau tlodi tanwydd, hybu ynni adnewyddadwy, trafnidiaeth gynaladwy, arbed ynni, prosiectau cadwraethol, lleihau gwastraff, gwirfoddoli, hybu ymarfer corff neu hybu dysgwyr Cymraeg.

Yn ystod 2019 aethpwyd ati i sefydlu Elusen Dyffryn Peris a fyddai'n gweithredu'n annibynnol i fenter Ynni Padarn Peris.

Cofrestrwyd Elusen Dyffryn Peris SCE gyda'r Comisiwn Elusennau ym mis Ebrill 2020, yna bu'n weithredol o Fehefin o'r un flwyddyn.

Mae Bwrdd yr Elusen yn cynnwys saith o unigolion lleol sy'n gyfarwydd â'r fro ac yn gydymdeimladol tuag at ofynion ei chymunedau ynghyd a dau aelod sy'n eistedd ar Fwrdd Ynni Padarn ac yn rhannu'r un dyheadau.

Yn anffodus yn ystod y cyfnod yma prin fu'r nifer o geisiadau er yr ymdrechion i ledaenu gwybodaeth am yr elusen. Felly bu'r flwyddyn hon yn bur dawel o ran y ceisiadau i'w trafod, felly diolch i'r holl ymddiriedolwyr sydd wedi ymuno'n gyson drwy Zoom i wireddu gwaith yr Elusen a bod yn ffyddiog y gwelir cynnydd yn y ceisiadau i'r dyfodol.

John Grisdale
Ysgrifennydd

**Rhestr o Ymddiriedolwyr y Bwrdd**

| | | |
|---|---|---|
| Dr Robin Parry | Cadeirydd | Etholwyd 2019 |
| John Grisdale | Ysgrifennydd | Etholwyd 2019 |
| Rhys ap Gwilym | Trysorydd | Etholwyd 2019 |
| Erin Eifion | | Etholwyd 2019 |
| Rhian George | | Etholwyd 2019 |
| Katy Williams | | Etholwyd 2019 |
| Philip Roberts | | Etholwyd 2019 |
| Maldwyn Peris | YPP | Etholwyd 2019 |
| George Jones | YPP | Etholwyd 2019 |

**Braslun o waith y Bwrdd yn ystod 2023 - 2024**

**Ionawr 2023**
Ni chynhaliwyd cyfarfod o'r Bwrdd gan nad oedd cais newydd wedi dod i law.

**Ebrill 2023**
Ni chynhaliwyd cyfarfod o'r Bwrdd gan nad oedd cais newydd wedi dod i law.

**11 Gorffennaf 2023**
Cyfarfod drwy Teams.
Derbyniwyd sawl ymholiad cychwynnol ond dim un cyflawn. Felly wrth ystyried ein criteria credir y dyliai ystyriaethau cymunedol fod llawn mor werthfawr ag ystyriaethau amgylcheddol ac arbed ynni. Bu ein cefnogaeth o gynllun pwyntiau gwefru Y Caban ac amgylchedd mynwent Llanrug yn brawf o hyn.
Cytunwyd i hyrwyddo hyn yn lleol ac yn Eco'r Wyddfa ond i ddefnyddio mwy ar weplyfr yr Elusen ac i safleoedd y pentrefi lleol ailadrodd unrhyw neges.

**10 Hydref 2024**
Cyfarfod yn Y Ganolfan Llanberis.
Ymddangosodd hanes diweddar yr Elusen yn rhifyn Awst o Eco;r Wyddfa.
Braf oedd nodi yn ystod y cyfnod diweddaraf i diwedd Medi daeth tri cais i law.
Cymeradwywyd **Cais 10** oddi wrth Y Sefydliad Coffa yn Llanrug er mwyn uwchraddio y system goleuo. Hefyd cefnogwyd Clwb Drama Ragarug a gyflwynodd **Cais 11.** Yn anffodus ni chefnogwyd **Cais 12** gan GwyrddNI.

**7 Chwefror 2024**
Cyfarfod drwy Teams.
Un cais ddaeth i law sef **Cais 13** oddi wrth Grŵp Datblygu Llanberis yn gofyn am gefnogaeth i brynu 'gasibo' er mwyn hyrwyddo eu gwaith a'u proffil amgylcheddol yn y pentref.

**7 Mai 2024**
Cyfarfod drwy Teams.
Gwnaethpwyd apêl lleol am gynrychiolwyr i weithredu fel Ymddiriedolwyr newydd ond prin fu'r ymateb yn anffodus. Bydd pwyso pellach cyn y pwyllgor ym mis Gorffennaf.
Trafodwyd ail gais ar ran Gwyrdd Ni sef **Cais 13** a phenderfynwyd holi barn aelodau o Bwyllgor Ynni Padarn Peris er mwyn cael barn mwy cynhwysfawr erbyn y pwyllgor nesaf.

**Rhestr y Ceisiadau**

| Cais | Teitl | Penderfyniad | Swm |
|---|---|---|---|
| **Cais 10** | Uwchraddio system goleuo yn Llanrug | Cymeradwyo | £5875.20 |
| **Cais 11** | Clwb Dram Ragarug | Cymeradwyo | £3200.00 |
| **Cais 12** | Cyfranu at waith GwyrddNi | Gwrthod | |
| **Cias 13** | Gasibo i Grŵp Datblygu Llanberis | Cymeradwyo | £679.00 |

**Crynodeb o'r sefyllfa Arianol**

Derbyniwyd £10,000 o gyllid gan Ynni Padarn Peris rhwng mis Mehefin 2023 hyd at ddiwedd mis Mai 2024. Dosbarthwyd cyfanswm o £9,754.20 mewn grantiau, fel y manylir

isod. Gwariwyd £192.02 ar weinyddu gwefan yr Elusen dros y cyfnod. £15,975.56 oedd yn weddill yng nghyfrif banc yr Elusen ar ddiwedd mis Mai 2024.

Manylion trosglwyddiadau banc yr Elusen:

| Dyddiad | | Derbyniwyd | Talwyd | Mantol |
|---|---|---|---|---|
| 31/05/2023 | Mantol Agoriadol | | | £15921.78 |
| 25/10/2023 | Cais 10 | | £5,8750 | |
| 25/10/2023 | Cais 11 | | £3,200.00 | |
| 27/11/2023 | Ynni Padarn Peris | £10,000 | | |
| 27/02/2024 | Cais 13 | | £679.00 | |
| 30/03/2024 | Costau wefan | | £192.02 | |
| 31/05/2024 | Mantol terfynnol | | | £15,975.56 |

**ELUSEN DYFFRYN PERIS SCE**

England & Wales - Charity number 1189074

# Accounts

# ELUSEN DYFFRYN PERIS

**Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn 2021 - 2022**

**Cyflwyniad**
Sefydlwyd Ynni Padarn Peris er mwyn creu cynllun heidro cymunedol i gynhyrchu trydan 'gwyrdd' gan ddefnyddio unrhyw elw at ddibenion cymdeithasol yn Nyffryn Peris.

Yna sefydlwyd Elusen Dyffryn Peris i ddosbarthu rhodd arianol a roddir yn flynyddol gan Ynni Padarn Peris er mwyn cyfrannu i les y cymunedau yn y dyffryn.
Un o amcanion sylfaenol Ynni Padarn Peris oedd sefydlu elusen a fyddai'n rhannu arian i brosiectau lleol. Nodir y mathau o weithgareddau a ystyrir yn briodol i dderbyn cefnogaeth fel - lleihau tlodi tanwydd, hybu ynni adnewyddadwy, trafnidiaeth gynaladwy, arbed ynni, prosiectau cadwraethol, lleihau gwastraff, gwirfoddoli, hybu ymarfer corff neu hybu dysgwyr Cymraeg.

Yn ystod 2019 aethpwyd ati i sefydlu Elusen Dyffryn Peris a fyddai'n gweithredu'n annibynnol i fenter Ynni Padarn Peris.

Cofrestrwyd Elusen Dyffryn Peris SCE gyda'r Comisiwn Elusennau ym mis Ebrill 2020, yna bu'n weithredol o Fehefin o'r un flwyddyn.

Mae Bwrdd yr Elusen yn cynnwys saith o unigolion lleol sy'n gyfarwydd â'r fro ac yn gydymdeimladol tuag at ofynion ei chymunedau ynghyd a dau aelod sy'n eistedd ar Fwrdd Ynni Padarn ac yn rhannu'r un dyheadau.

Yn anffodus yn ystod yr un cyfnod sefydlu yma dylanwadodd Cofid 19 a'r pandemig iechyd ddaeth yn ei sgîl ar waith trefnu a hyrwyddo gwaith yr Elusen. Yn yr un modd bu lesterio ar waith a chyfleoedd i fudiadau a chymdeithasau lleol i gyfarfod ac i ystyried ceisiadau am gymorth gan yr Elusen yn ystod y cyfnod cwbl anarferol hwn. Hyd yma felly, nifer cyfyngedig o geisiadau a gafwyd.

Bu'r flwyddyn hon yn eithriadol mewn cymaint o ffyrdd felly diolch i'r holl ymddiriedolwyr sydd wedi ymuno'n gyson drwy Zoom i wireddu gwaith yr Elusen a bod yn ffyddiog y gwelir cynnydd yn y ceisiadau i'r dyfodol.

John Grisdale
Ysgrifennydd

**Rhestr o Ymddiriedolwyr y Bwrdd**

| | | |
|---|---|---|
| Dr Robin Parry | Cadeirydd | Etholwyd 2019 |
| John Grisdale | Ysgrifennydd | Etholwyd 2019 |
| Rhys ap Gwilym | Trysorydd | Etholwyd 2019 |
| Erin Eifion | | Etholwyd 2019 |
| Rhian George | | Etholwyd 2019 |
| Katy Williams | | Etholwyd 2019 |
| Philip Roberts | | Etholwyd 2019 |

| | | |
|---|---|---|
| Maldwyn Peris | YPP | Etholwyd 2019 |
| George Jones | YPP | Etholwyd 2019 |

**Braslun o waith y Bwrdd yn ystod 2021 - 2022**

**2021**
**27 Ionawr 2021**
Cyfarfod drwy Zoom - Cytunwyd i hysbysebu'r Elusen drwy y Safle we newydd a thrwy hysbysebion a gwybodaeth yn Eco'r Wyddfa yn ogystal a thargedu cyfryngau cymdeithasol. Trafodwyd y dull mwyaf addas i werthuso pob cais a monitro pob cynllun fel sail i adroddiad blynyddol.

**2 Chwefror 2021**
Cyfarfod dros Zoom gydag aelodau o Elusen Dyffryn Ogwen i gymharu nodiadau ac arfer da.

**14 Ebrill 2021**
Cyfarfod dros Zoom. Prin fu'r ymateb i'r hysbyseb yn Yr Eco gydag ond un cais erbyn y dyddiad cau. Credir mai effaith y cyfnod clo a'r pandemig oedd yn bennaf gyfrifol a dim dyddiad i'r datgloi. Penderfynwyd ymsetyn ein dulliau o gyrraedd ein cymunedau. Trafodwyd un cais am gynhaliaeth **(Cais 1)** ond penderfynwyd gohirio'r penderfyniad yn amodol ar dderbyn rhagor o wybodaeth.

**13 Gorffennaf 2021**
Cyfarfod dros Zoom. Unwaith eto siomedig fu'r ymateb i'r hysbysebu ac eto rhoddwyd sylw i hysbysebu pellach. Mabwysiadwyd taflenni gwerthuso. Derbynwyd **Cais 2** o Ddeiniolen a dyfarnwyd i'w gymeradwyo. Dim manylion pellach parthed **Cais 1** felly heb gyfarfod â'r nodau.

**12 Hydref 2021**
Cyfarfod dros Zoom. Cytunwyd ar hysbysebu pellach yn Eco'r Wyddfa ac yn y cyfryngau cymdeithasol. Cytunwyd i fanteisio ar bob cyfle i rannu newyddion am y ceisiadau ac unrhyw gyllido llwyddiannus. Cytunwyd i barhau i gyfarfod yn rhithiol oherwydd y pandemig.
Cafwyd ymholiad cychwynol gan Blas Pengwaith.

**14 Rhagfyr 2021**
Cyfarfod drwy Zoom. 'Roeddd pryder eto am nad oedd fawr o geisiadau wedi dod i law drwy egluro fod cymdeithasau yn amharod i gyfarfod a gwneud cais. Bwriedir targedu cymdeithasau a mudiadau yn fwy personol.
Derbynwyd **Cais 3** gan Gyngor Llanberis am gyfraniad i helpu gydag ailwynebu'r cae chwarae. Penderfynwyd cymeradwo y cais.

**2022**
**08 Mawrth 2022**
Cyfarfod drwy Zoom. Cadarnhau y bwriad o roi cyhoeddusrwydd i bob cais llwyddiannus. Hefyd cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar gyfer Y Comiswn Elusennau sy'n nodi ffeithiau moel am waith y Bwrdd, nifer y ceisiadau a'r gwariant. Cafwyd trafodaeth am sefyllfa pentref Rhiwlas o fewn dalgylch yr Elusen - wedi trafodaeth eang gwrthodwyd y cais hwn. Trafodwyd **Cais 4** oddi wrth Gartref Plas Pengwaith a'i gymeradwyo.

**Rhestr y Ceisiadau**

| Cais | Teitl | Penderfyniad | Swm |
|---|---|---|---|
| 1 | Sefydlu cyngrhair ffwtsal - Llanrug | Gohirio | |
| 2 | Clwb peldroed plant a ieuenctid Deiniolen. Er mwyn arianu dillad ac offer i annog chwaraeon . | Cymeradwyo | £500 |
| 3 | Cyngor Cymuned Llanberis. I helpu arianu ailwynebu'r cae chwarae | Cymeradwyo | £5000 |
| 4 | Cartref Plas Pengwaith Llanberis Er mwyn prynu meinciau gardd i'r trigolion | Cymeradwyo | £738 |

**Crynodeb o'r sefyllfa Arianol**

Derbyniwyd £20,000 o gyllid gan Ynni Padarn Peris ers cychwyn yr Elusen ym mis Ebrill 2020 hyd at ddiwedd mis Mai 2022. Dosbarthwyd cyfanswm o £6,238 mewn grantiau, fel y manylir uchod. Gwariwyd £866.47 ar sefydlu a gweinyddu wefan yr Elusen dros y cyfnod. £12,895.53 oedd yn weddill yng nghyfrif banc yr Elusen ar ddiwedd mis Mai 2022.

Manylion trosglwyddiadau banc yr Elusen:

| Dyddiad | | Derbyniwyd | Talwyd | Mantol |
|---|---|---|---|---|
| 22/04/20 | | | | £0.00 |
| 23/04/20 | Ynni Padarn Peris | £1,000.00 | | |
| 26/08/20 | Ynni Padarn Peris | £9,000.00 | | |
| 25/05/21 | Costau sefydlu wefan | | £727.41 | |
| 18/10/21 | Cais 2 | | £500.00 | |
| 21/01/22 | Cais 3 | | £5,000.00 | |
| 18/02/22 | Ynni Padarn Peris | £10,000.00 | | |
| 09/03/22 | Costau gweinyddu wefan | | £139.06 | |
| 24/03/22 | Cais 4 | | £738.00 | |
| 31/05/22 | | | | £12,895.53 |

**ELUSEN DYFFRYN PERIS SCE**

England & Wales - Charity number 1189074

# Accounts

# ELUSEN DYFFRYN PERIS

**Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn 2021 - 2022**

**Cyflwyniad**
Sefydlwyd Ynni Padarn Peris er mwyn creu cynllun heidro cymunedol i gynhyrchu trydan 'gwyrdd' gan ddefnyddio unrhyw elw at ddibenion cymdeithasol yn Nyffryn Peris.

Yna sefydlwyd Elusen Dyffryn Peris i ddosbarthu rhodd arianol a roddir yn flynyddol gan Ynni Padarn Peris er mwyn cyfrannu i les y cymunedau yn y dyffryn.
Un o amcanion sylfaenol Ynni Padarn Peris oedd sefydlu elusen a fyddai'n rhannu arian i brosiectau lleol. Nodir y mathau o weithgareddau a ystyrir yn briodol i dderbyn cefnogaeth fel - lleihau tlodi tanwydd, hybu ynni adnewyddadwy, trafnidiaeth gynaladwy, arbed ynni, prosiectau cadwraethol, lleihau gwastraff, gwirfoddoli, hybu ymarfer corff neu hybu dysgwyr Cymraeg.

Yn ystod 2019 aethpwyd ati i sefydlu Elusen Dyffryn Peris a fyddai'n gweithredu'n annibynnol i fenter Ynni Padarn Peris.

Cofrestrwyd Elusen Dyffryn Peris SCE gyda'r Comisiwn Elusennau ym mis Ebrill 2020, yna bu'n weithredol o Fehefin o'r un flwyddyn.

Mae Bwrdd yr Elusen yn cynnwys saith o unigolion lleol sy'n gyfarwydd â'r fro ac yn gydymdeimladol tuag at ofynion ei chymunedau ynghyd a dau aelod sy'n eistedd ar Fwrdd Ynni Padarn ac yn rhannu'r un dyheadau.

Yn anffodus yn ystod yr un cyfnod sefydlu yma dylanwadodd Cofid 19 a'r pandemig iechyd ddaeth yn ei sgîl ar waith trefnu a hyrwyddo gwaith yr Elusen. Yn yr un modd bu lesterio ar waith a chyfleoedd i fudiadau a chymdeithasau lleol i gyfarfod ac i ystyried ceisiadau am gymorth gan yr Elusen yn ystod y cyfnod cwbl anarferol hwn. Hyd yma felly, nifer cyfyngedig o geisiadau a gafwyd.

Bu'r flwyddyn hon yn eithriadol mewn cymaint o ffyrdd felly diolch i'r holl ymddiriedolwyr sydd wedi ymuno'n gyson drwy Zoom i wireddu gwaith yr Elusen a bod yn ffyddiog y gwelir cynnydd yn y ceisiadau i'r dyfodol.

John Grisdale
Ysgrifennydd

**Rhestr o Ymddiriedolwyr y Bwrdd**

| | | |
|---|---|---|
| Dr Robin Parry | Cadeirydd | Etholwyd 2019 |
| John Grisdale | Ysgrifennydd | Etholwyd 2019 |
| Rhys ap Gwilym | Trysorydd | Etholwyd 2019 |
| Erin Eifion | | Etholwyd 2019 |
| Rhian George | | Etholwyd 2019 |
| Katy Williams | | Etholwyd 2019 |
| Philip Roberts | | Etholwyd 2019 |

| | | |
|---|---|---|
| Maldwyn Peris | YPP | Etholwyd 2019 |
| George Jones | YPP | Etholwyd 2019 |

**Braslun o waith y Bwrdd yn ystod 2021 - 2022**

**2021**
**27 Ionawr 2021**
Cyfarfod drwy Zoom - Cytunwyd i hysbysebu'r Elusen drwy y Safle we newydd a thrwy hysbysebion a gwybodaeth yn Eco'r Wyddfa yn ogystal a thargedu cyfryngau cymdeithasol. Trafodwyd y dull mwyaf addas i werthuso pob cais a monitro pob cynllun fel sail i adroddiad blynyddol.

**2 Chwefror 2021**
Cyfarfod dros Zoom gydag aelodau o Elusen Dyffryn Ogwen i gymharu nodiadau ac arfer da.

**14 Ebrill 2021**
Cyfarfod dros Zoom. Prin fu'r ymateb i'r hysbyseb yn Yr Eco gydag ond un cais erbyn y dyddiad cau. Credir mai effaith y cyfnod clo a'r pandemig oedd yn bennaf gyfrifol a dim dyddiad i'r datgloi. Penderfynwyd ymsetyn ein dulliau o gyrraedd ein cymunedau. Trafodwyd un cais am gynhaliaeth **(Cais 1)** ond penderfynwyd gohirio'r penderfyniad yn amodol ar dderbyn rhagor o wybodaeth.

**13 Gorffennaf 2021**
Cyfarfod dros Zoom. Unwaith eto siomedig fu'r ymateb i'r hysbysebu ac eto rhoddwyd sylw i hysbysebu pellach. Mabwysiadwyd taflenni gwerthuso. Derbynwyd **Cais 2** o Ddeiniolen a dyfarnwyd i'w gymeradwyo. Dim manylion pellach parthed **Cais 1** felly heb gyfarfod â'r nodau.

**12 Hydref 2021**
Cyfarfod dros Zoom. Cytunwyd ar hysbysebu pellach yn Eco'r Wyddfa ac yn y cyfryngau cymdeithasol. Cytunwyd i fanteisio ar bob cyfle i rannu newyddion am y ceisiadau ac unrhyw gyllido llwyddiannus. Cytunwyd i barhau i gyfarfod yn rhithiol oherwydd y pandemig.
Cafwyd ymholiad cychwynol gan Blas Pengwaith.

**14 Rhagfyr 2021**
Cyfarfod drwy Zoom. 'Roeddd pryder eto am nad oedd fawr o geisiadau wedi dod i law drwy egluro fod cymdeithasau yn amharod i gyfarfod a gwneud cais. Bwriedir targedu cymdeithasau a mudiadau yn fwy personol.
Derbynwyd **Cais 3** gan Gyngor Llanberis am gyfraniad i helpu gydag ailwynebu'r cae chwarae. Penderfynwyd cymeradwo y cais.

**2022**
**08 Mawrth 2022**
Cyfarfod drwy Zoom. Cadarnhau y bwriad o roi cyhoeddusrwydd i bob cais llwyddiannus. Hefyd cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar gyfer Y Comiswn Elusennau sy'n nodi ffeithiau moel am waith y Bwrdd, nifer y ceisiadau a'r gwariant. Cafwyd trafodaeth am sefyllfa pentref Rhiwlas o fewn dalgylch yr Elusen - wedi trafodaeth eang gwrthodwyd y cais hwn. Trafodwyd **Cais 4** oddi wrth Gartref Plas Pengwaith a'i gymeradwyo.

**Rhestr y Ceisiadau**

| Cais | Teitl | Penderfyniad | Swm |
|---|---|---|---|
| 1 | Sefydlu cyngrhair ffwtsal - Llanrug | Gohirio | |
| 2 | Clwb peldroed plant a ieuenctid Deiniolen. Er mwyn arianu dillad ac offer i annog chwaraeon . | Cymeradwyo | £500 |
| 3 | Cyngor Cymuned Llanberis. I helpu arianu ailwynebu'r cae chwarae | Cymeradwyo | £5000 |
| 4 | Cartref Plas Pengwaith Llanberis Er mwyn prynu meinciau gardd i'r trigolion | Cymeradwyo | £738 |

**Crynodeb o'r sefyllfa Arianol**

Derbyniwyd £20,000 o gyllid gan Ynni Padarn Peris ers cychwyn yr Elusen ym mis Ebrill 2020 hyd at ddiwedd mis Mai 2022. Dosbarthwyd cyfanswm o £6,238 mewn grantiau, fel y manylir uchod. Gwariwyd £866.47 ar sefydlu a gweinyddu wefan yr Elusen dros y cyfnod. £12,895.53 oedd yn weddill yng nghyfrif banc yr Elusen ar ddiwedd mis Mai 2022.

Manylion trosglwyddiadau banc yr Elusen:

| Dyddiad | | Derbyniwyd | Talwyd | Mantol |
|---|---|---|---|---|
| 22/04/20 | | | | £0.00 |
| 23/04/20 | Ynni Padarn Peris | £1,000.00 | | |
| 26/08/20 | Ynni Padarn Peris | £9,000.00 | | |
| 25/05/21 | Costau sefydlu wefan | | £727.41 | |
| 18/10/21 | Cais 2 | | £500.00 | |
| 21/01/22 | Cais 3 | | £5,000.00 | |
| 18/02/22 | Ynni Padarn Peris | £10,000.00 | | |
| 09/03/22 | Costau gweinyddu wefan | | £139.06 | |
| 24/03/22 | Cais 4 | | £738.00 | |
| 31/05/22 | | | | £12,895.53 |